

EVANS, JOHN (c. 1680 - 1730), gweinidog Presbyteraidd a diwinydd

Enw: John Evans
Dyddiad geni: c. 1680
Dyddiad marw: 1730
Rhiant: Katherine Powell (née Gerard)
Rhiant: John Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Presbyteraidd a diwinydd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Mab [John Evans](#) (1628 - 1700) a Katherine, gweddw [Vavasor Powell](#) a merch y cyrnol Gilbert Gerard, rheolwr castell Caer dros Siarl I. Ganed y mab yn Wrecsam. Cafodd ei addysg yn ysgolion yr Anghydfurfwr yn Newington Green a Rathmell (swydd Efrog), a bu'n astudio gwaith y tadau cynnar o dan [James Owen](#), Croesoswallt. Daeth yn gaplan i Mrs. Rowland Hunt, Boreatton, Swydd Amwythig, ac ychydig cyn marw ei dad aeth i'w gynorthwyo i ofalu am yr ' Old Meeting ' (Annibynwyr a Bedyddwyr) yn Wrecsam. Gwahoddwyd ef gan y cynulliad i ddilyn ei dad; mynnai ef iddynt gytuno i gael gan y ' New Meeting ' (y Presbyteriaid) uno â'r ' Old Meeting,' a phan welwyd na wneid mo hyn ymddengys iddo dderbyn galwad a gafodd gan y ' New Meeting.' Ordeiniwyd ef yn Wrecsam ar 18 Awst 1702 - yr oedd [Matthew Henry](#), Caer, [James Owen](#), Croesoswallt, a Francis Tallents, Amwythig, ymhlith y rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth ordeinio. Yn 1704 daeth yn fugail cynorthwyol i [Dr. Daniel Williams](#) yn Hand Alley, Llundain, a phan fu farw [Dr. Williams](#) yn 1716 dilynodd Evans ef fel bugail. Bu iddo ran amlwg (ar yr ochr 'unionged') yn y ddadl Ariaidd yn 1719, eithr yr oedd yn wastad yn oddefgar ym mater athrawiaeth. Yr oedd yn un o ymddiriedolwyr y ' Regium Donum ' (1723) ac efe a arweiniodd y ddirprwyaeth a aeth i longyfarch Siôr II ar ei esgyniad.

Ysgrifennodd Evans lawer o lyfrau diwinyddol (gweler restr ohonynt yn *D.N.B.*) a chafodd radd D.D. gan Brifysgol Edinburgh - eithr nid gan Aberdeen (fel y dywedir yn *D.N.B.*) na chan Glasgow (fel y dywed Palmer). Casglodd (eithr heb gael byw i'w defnyddio) ddefnyddiau hanes Pwritaniaeth - y mae rhai ohonynt yn llyfrgell [Dr. Williams](#), Llundain; casglodd hefyd ffigurau ynglyn ag Anghydfurfiaeth o 1717 hyd 1729. Collodd lawer o arian oblegid y ' South Sea Bubble ' (1720), a bu farw, 'but in mean circumstances,' 23 Mai 1730, eithr gadawodd tua 10 mil o lyfrau sydd yn awr yn llyfrgell Dr. Williams, lle y mae ei ddarlun hefyd. Fe'i claddwyd yng nghell gladdu [Dr. Williams](#) yn Bunhill Fields. Yr oedd ei wraig yn ferch i weinidog a drowyd allan yn 1662.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Edmund Calamy, *An historical account of my own life with some reflections on the times I have lived in (1671-1731)* (London 1830)

A. N. Palmer, *A history of the older nonconformity of Wrexham and its neighbourhood being the third part of 'A history of the town and parish of Wrexham'* (1888)

Oxford Dictionary of National Biography, xviii, 65-6

NLW MS 11097

Llawysgrif Rhual 110

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [16173796](#)

Wikidata: [Q6232005](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

